Medi 2010

pensaernïaeth **seven**



# Lefel o Ragoriaeth

Mae **seven** wrth eu boddau yn cyhoeddi cwblhau yn llwyddiannus Coleg Chweched Dosbarth diweddaraf y wlad, yn Rochdale, y cyntaf i'w greu ers 2004.

Mae **seven** wedi gweithio'n agos â'r Cyngor Dysgu a Sgiliau ac amryfal ddeiliaid ers 2006 i ddatblygu'r prosiect blaengar safon Rhagorol BREEAM, a gwblhawyd mewn pryd ac o fewn y cyllid gan y contractwr Bardsley, yn barod ar gyfer myfyrwyr cyntaf y Coleg yn gynnar ym Medi 2010.

Mae'r adeilad £19m, 6 llawr yn darparu dros 8,000m2 o lefydd cyffredinol ac arbenigol gan gynnwys swît labordy gwyddonol safon uchaf, theatr 160 sedd, stiwdios dawns a drama, stiwdios celf a labordai cyfryngau ac amrywiaeth eang o amgylcheddau hyblyg ar gyfer addysgu a dysgu, oll yn cael ei gynnal gan y dechnoleg gydweithiol ddiweddaraf.

Mae yna risiau cerfluniol o goed ar ei du allan yn codi drwy'r cyntedd golau oddi uchod canolog, sydd o gymorth mawr i'r defnyddiwr wybod ei gyfeiriad ac mae'n creu calon ddramatig i'r coleg. Mae'r trefniant hwn hefyd yn caniatáu rhannu'r adeilad yn hyblyg ar gyfer anghenion mynediad amrywiol o fewn y dydd a'r flwyddyn.

Mae cyfluniad y cynllun mewnol wedi ei ddylunio i wneud y gorau o olau dydd a golygfeydd allan. Mae sgriniau gwydr yn cynnig cip olwg tuag allan ac i fewn i lefydd dysgu drwy'r Coleg, yn gymorth i'r staff arolygu'r myfyrwyr mewn ffordd oddefol.

Ar y tu allan mae ffurf a deunydd yr adeilad yn deillio o adeiladau gwych y melinau, unwaith y peiriannau y tu ôl i ddiwydiannau brethyn Rochdale.

Caiff yr adeilad ei agor yn swyddogol gan EFB Dug Caerloyw ym mis Hydref.




Manchester Studio
+44 (0) 845 000 777 1

Harrogate Studio
+44 (0) 845 000 777 2

Wales Studio
+44 (0) 845 000 777 3

E-mail: ian.chapman@sevenarchitecture.co.uk